

Gweithwyr gofal cartref ar y Gofrestr - 1 Ebrill 2022



Negeseuon allweddol

- Daeth yn orfodol i weithwyr gofal cartref sy'n gweithio yng Nghymru gofrestru o 1 Ebrill 2020.
- Er mwyn cefnogi'r sector, wnaethon ni ddim tynnu enw unrhyw un o'r Gofrestr am fethu adnewyddu eu cofrestriad neu am fethu talu ffi yn ystod pandemig COVID. Felly, mae niferoedd uwch na'r arfer wedi'u tynnu oddi ar y Gofrestr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Roedd 19,982 o weithwyr gofal cartref ar y Gofrestr ar 1 Ebrill 2022 o gymharu â 22,131 yn 2021.
- Mae 2,882 o weithwyr wedi ymuno â'r Gofrestr a 5,031 wedi ymadael ers 1 Mehefin 2021.



Pa gymwysterau sydd gan weithwyr?

- Mae gan 58% gymhwyster ymarfer.
- Mae 30% wedi cofrestru ar ôl cwblhau'r broses gynefino a bydd angen iddyn nhw gwblhau cymhwyster cyn pen tair blynedd (o gymharu â 28% yn 2021).
- Mae 12% wedi cofrestru yn seiliedig ar ddatganiad gan eu rheolwr yn cadarnhau eu profiad a chymhwysedd (a elwir yn gymhwysedd wedi'i gadarnhau).



Ble mae gweithwyr yn cael eu cyflogi?

- Mae 94% mewn swydd ar hyn o bryd.
- Mae 53% o'r rhain yn gweithio yn y sector preifat (51% yn 2021). Mae 24% yn gweithio yn y trydydd sector (27% yn 2021) a 21% yn gweithio i awdurdod lleol.
- Dechreuodd 37% yn eu rôl yn ystod y tair blynedd diwethaf.
- Mae 22.5% wedi bod yn eu rôl ers deng mlynedd a mwy.



Beth yw proffil y gweithwyr?

- 45 yw oedran cyfartalog gweithwyr, ac mae'r niferoedd yn debyg ym mhob grŵp oedran.
- Mae 83.2% o weithwyr yn fenywod ac 16.8% yn ddynion. Mae 4 gweithiwr yn disgrifio eu hunain yn naill ai anneauidd neu rhyweddhylifol.
- Mae 96% o weithwyr yn wyn Prydeinig, Cymreig neu Wyddelig. Mae 1.4% yn anabl.
- Mae 10% yn siarad Cymraeg yn rhugl a 63% heb air o Gymraeg.